Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Gwerthu Cymru i'r Byd

Medi 2018




www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddESS**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddESS@cynulliad.cymru**
Twitter: **@ SeneddESS**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Gwerthu Cymru i'r Byd

Medi 2018

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafnidiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Russell George AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mohammad Asghar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Hefin David AC**
Llafur Cymru
Caerffili



**Vikki Howells AC**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Adam Price AC**
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**David J Rowlands AC**
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Hannah Blythyn AC**
Llafur Cymru
Delyn



**Mark Isherwood AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Jeremy Miles AC**
Llafur Cymru
Castell-nedd

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd .... 5**

**Argymhellion .... 6**

**Casgliadau .... 8**

**1. Cefndir yr ymchwiliad .... 11**

**2. Trosolwg .... 13**

**3. Masnach a Mewnfuddsoddi .... 15**

Allforio .... 16

Swyddfeydd tramor .... 17

Mewnfuddsoddi .... 20

Datblygu .... 21

**4. Twristiaeth .... 23**

Brandio .... 24

Presenoldeb digidol .... 26

Digwyddiadau .... 29

Trafnidiaeth gyhoeddus .... 31

Sgiliau .... 32

**5. Addysg .... 34**

Cyn-fyfyrwyr .... 34

Y Cynnig Addysg Bellach ac Uwch .... 35

Cysylltiadau .... 36

**6. Tîm Cymru .... 39**

**Atodiad: Tystion .... 41**

# Rhagair y Cadeirydd

## Mae Cymru'n wlad fach mewn byd mawr. Ond nawr, yn fwy nag erioed, mae angen inni ymestyn allan a datblygu'r cysylltiadau a fydd yn ein helpu i ffynnu a thyfu.


Gyda Brexit yn agosáu, mae cydnabyddiaeth gyffredinol y bydd heriau a chyfleoedd o'n blaenau, wrth i ni ailnegodi ein perthynas â'n cymdogion yn Ewrop ac wrth inni edrych y tu hwnt i'r ffiniau hynny i feithrin cysylltiadau newydd â marchnadoedd sy'n amlygu neu'n ehangu. Yn sgil refferendwm Brexit, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, mewn erthygl ym mhapur newydd y "Times", ei fod wedi'i gwneud yn flaenoriaeth, a hynny ar unwaith, i Lywodraeth Cymru fynd allan a gwerthu Cymru i'r byd yn fwy nag erioed.

Yng ngoleuni'r sylw hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor lansio ymchwiliad i ystyried sut yr ydym wedi bod yn gwerthu Cymru i'r byd hyd yn hyn. Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar dri maes: masnach, twristiaeth a sgiliau/hyfforddiant. Ceisiwyd mesur llwyddiant hyd yn hyn, a nodi meysydd i'w gwella. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r problemau a ganfuwyd gennym.

Mae'n amlwg i'r Pwyllgor fod rhagor y gellir ei wneud i werthu Cymru i'r byd mewn ffordd strategol a chydgysylltiedig. Mae pocedi o arfer da y mae'n rhaid eu halinio'n well ar draws portffolios – a'u gwneud yn agored i ragor o fusnesau – os ydym am gyflawni ein potensial yn y maes hwn.

Dylai rolau a chylch gwaith y swyddfeydd tramor fod yn glir ac, yn bwysicach fyth, dylai Prif Weinidog nesaf Cymru ystyried o ddifrif creu swydd benodol yn y cabinet i gyfuno'r cyfrifoldebau am fasnach ryngwladol a gweithredu Brexit. Nawr yw'r amser i wneud hyn yn iawn.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a ddaeth i'r seminar gan roi o'u hamser a'u harbenigedd i'r ymchwiliad hwn.



Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried o ddifrif creu swydd benodol yn y Cabinet i gyfuno'r cyfrifoldebau am fasnach ryngwladol a gweithredu Brexit er mwyn rhoi mwy o ffocws i'r maes allweddol hwn a chyfleoedd rheolaidd a strwythuredig ar gyfer craffu. ............ Tudalen 15

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth twf allforio i baratoi cwmnïau ar gyfer marchnadoedd rhyngwladol a chynyddu nifer y cwmnïau sy'n allforio. ............ Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth ddefnyddio'r rhwydwaith presennol o swyddfeydd Tramor a Chymanwlad a'r Adran Fasnach Ryngwladol a chysylltiadau ledled y byd. ............ Tudalen 19

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi cylch gwaith manwl ar gyfer y swyddfeydd tramor, a llunio adroddiad i'r Cynulliad bob blwyddyn ar y modd y mae pob swyddfa yn cyflawni'r hyn sydd yn y cynllun busnes. ..... Tudalen 19

**Argymhelliad 5.** Dylai busnesau a rhanddeiliaid gael gwybod am gylch gwaith y swyddfeydd tramor er mwyn hybu deialog rhyngddynt, a gwneud yn fawr o'r swyddfeydd. Dylai unrhyw swyddfeydd tramor ychwanegol ganolbwyntio ar farchnadoedd sydd â photensial uchel. ............ Tudalen 20

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i alluogi ystod ehangach o fusnesau yng Nghymru i gael mynediad i'r brand, ond gan gadw rheolaeth ar y safonau ar yr un pryd. ............ Tudalen 26

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo am well cynrychiolaeth fel rhan o bresenoldeb digidol VisitBritain, gan gynnwys nifer y cynhyrchion y gellir eu harchebu. ............ Tudalen 28

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai Croeso.Cymru gynnig cynhyrchion y gellir eu harchebu ............ Tudalen 28

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau bach a microfusnesau a darparwyr y trydydd sector i gydweithredu a datblygu pecynnau twristiaeth y gellir eu harchebu yn eu hardaloedd. ............ Tudalen 28

**Argymhelliad 10.** Dylai Trafnidiaeth Cymru ystyried y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth am y Pas Archwilio Cymru fel rhan o'r trefniadau masnachfraint newydd ar gyfer y rheilffyrdd. ............ Tudalen 32

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo Llywodraeth y DU ar ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru. .......... Tudalen 32

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chynlluniau i gefnogi'r diwydiant drwy ddatblygu'r gweithlu ym maes twristiaeth, yng nghyd-destun Brexit. .......... Tudalen 33

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i weithio gyda phrifysgolion a cholegau i sicrhau bod y cymwysterau academaidd a phroffesiynol a ddyfernir yng Nghymru yn parhau'n gludadwy. .......... Tudalen 36

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi pobl sy'n dymuno byw, gweithio neu astudio dramor. Os na all Cymru elwa o Erasmus + neu Horizon Europe (y rhaglen olynol i Horizon 2020) mwyach, yna dylid ystyried rhaglenni eraill o fewn yr UE a'r tu allan iddo. .......... Tudalen 38

# Casgliadau

**Casgliad 1.** O ystyried yr ansicrwydd sy'n ymwneud â Brexit, mae llinell glir o atebolrwydd yn bwysicach nag erioed. ........ Tudalen 15

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y manteision a'r rhesymeg bod materion Rhyngwladol yn cynnwys nifer o bortffolios. Fodd bynnag, yn y cyd-destun presennol, mae hefyd yn cydnabod y perygl o syrthio rhwng dwy stôl wrth rannu cyfrifoldebau........ Tudalen 15

**Casgliad 3.** Nid yw cylch gwaith eang y swyddfeydd tramor yn adlewyrchu'r lefel o adnoddau sydd ganddynt. Da o beth fyddai cael mwy o eglurder am bwrpas y swyddfeydd a'r meini prawf a ddefnyddir i fesur eu llwyddiant........ Tudalen 19

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffocws newydd ar ansawdd mewnfuddsoddiad sy'n cryfhau busnesau a sectorau cynhenid, ond oherwydd yr ansicrwydd ynghylch Brexit, y canfyddiad nad oes digon o adnoddau yn y swyddfeydd tramor a'r anhawster a gafwyd o ran ymgysylltu â busnesau yma yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor bryderon am allu Llywodraeth Cymru i gyflawni. ........ Tudalen 20

**Casgliad 5.** Dylai Argymhelliad 4 y Pwyllgor gryfhau'r ffocws a'r gwaith craffu a fyddai'n helpu i roi sicrwydd bod y ffocws newydd ar fewnfuddsoddi yn cael ei gyflawni. ........ Tudalen 21

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen am roi cefnogaeth i fusnesau bach a microfusnesau i'w helpu i ddatblygu, cydweithio ac arloesi gyda'u hadnoddau cyfyngedig. ........ Tudalen 22

**Casgliad 7.** Mae gan Gymru frand cryf ond er gwaethaf bwriadau Llywodraeth Cymru, mae llawer o fusnesau Cymru yn teimlo nad ydynt yn rhan ohono. ........ Tudalen 26

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r gwaith ymgysylltu digidol cadarnhaol y mae Croeso Cymru wedi'i wneud. Fodd bynnag, er bod rhywfaint o welliant wedi bod ar safle VisitBritain, mae lle i wella o hyd, yn enwedig yn y nifer o gynhyrchion sydd ar gael y gellir eu harchebu, sy'n hanfodol wrth ddenu ymwelwyr o wledydd tramor. ........ Tudalen 28

**Casgliad 9.** Gallai'r cyfyngiadau presennol sy'n atal cynhyrchion y gellir eu harchebu rhag cael eu cynnwys ar wefan Croeso.Cymru newid ar ôl i'r DU adael yr UE. ........ Tudalen 28

**Casgliad 10.** Gellid defnyddio Croeso.Cymru gan Lywodraeth Cymru fel dull o gyrraedd busnesau bach a microfusnesau sy'n dymuno cefnogi brand Cymru. ........ Tudalen 28

**Casgliad 11.** Gan gydnabod pwysigrwydd pecynnau a chynhyrchion y gellir eu harchebu, dylai Llywodraeth Cymru roi cefnogaeth ac anogaeth i fusnesau bach a microfusnesau allu cydweithio a datblygu pecynnau yn eu hardaloedd. Tudalen 28

**Casgliad 12.** Mae Cymru'n perfformio'n dda wrth ddenu digwyddiadau rhyngwladol mawr, a rhoddodd Llywodraeth Cymru enghreifftiau o'r gefnogaeth a roddir i ddigwyddiadau "cartref". Gellid gwneud mwy i helpu rhanddeiliaid i elwa ar ddigwyddiadau a chreu gwaddol, ond bydd gweithredu'r argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud ag ymgysylltu a gweithio ar draws sectorau yn cael effaith ar y maes hwn. ........ Tudalen 31

**Casgliad 13.** Gallai hyrwyddo mwy ar y Pas Archwilio Cymru annog twristiaid tramor i aros yng Nghymru ychydig yn hirach cyn symud ymlaen. ........ Tudalen 32

**Casgliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryder sy'n ymwneud â phrinder sgiliau, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit. Mae'n croesawu'r prentisiaethau a ragwelir ym maes twristiaeth ond mae'n ansicr sut y bydd y rhain ar eu pennau eu hunain yn mynd i'r afael â'r prinder sgiliau y cyfeiriwyd ato fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r mater hwn fel rhan o'i agenda graffu ehangach. ........ Tudalen 33

**Casgliad 15.** O ystyried yr effaith a ragwelir yn sgil Brexit, nid yw'r Pwyllgor yn glir ar y camau sy'n cael eu cymryd yn y tymor byr i gefnogi ei effeithiau posibl ar y diwydiant twristiaeth. ........ Tudalen 33

**Casgliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y manteision o ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr a thynnu sylw at lwyddiannau tramor pobl sydd wedi bod yng Nghymru am gyfnod. ........ Tudalen 35

**Casgliad 17.** Mae cludadwyedd cymwysterau yn allweddol, ac mae'n rhywbeth y mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi siarad â'r Pwyllgor amdano'n ddiweddar, fel rhan o ymchwiliad ar wahân i'r Ardoll Brentisiaethau. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddoeth parhau i lynu wrth y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd a ddefnyddir yn feincnod ledled Ewrop a thu hwnt. ........ Tudalen 36

**Casgliad 18.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi mynegi ei gefnogaeth i weld cyrsiau galwedigaethol yn gyfartal â chyrsiau prifysgol. O gael y cyfle i ddarparu cyrsiau o'r fath drwy gysylltu ag economïau sy'n amlygu, dylid ystyried y manteision economaidd o wneud hynny. ........ Tudalen 36

**Casgliad 19.** Mae'r Pwyllgor wedi clywed trwy gydol yr ymchwiliad bod cynhwysiant ac ymgysylltu yn allweddol er mwyn gwneud yn fawr o'r effaith a'r manteision o werthu Cymru i'r byd. Mae hyn yr un mor wir am gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid yng Nghymru ag y mae i Golegau, Prifysgolion a myfyrwyr gael eu cysylltu yn fyd-eang. ........ Tudalen 38

**Casgliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod angen i Gymru fod yn gysylltiedig ac yn gydlynus yn ei strategaethau a'i dulliau gweithredu os ydym am godi ein proffil yn fyd-eang. ........ Tudalen 40

**Casgliad 21.** Ar draws y tair sector y bu'r ymchwiliad hwn yn canolbwyntio arnynt, cafwyd enghreifftiau da o'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid. Ond fe wnaethom hefyd ganfod y gallai ac y dylai'r Llywodraeth a'i rhanddeiliaid fod yn fwy cysylltiedig. Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd strategaethau Llywodraeth Cymru ac mae ei rhanddeiliaid yn galw am ymgysylltu ymhellach. Er bod y bwriad yno, gellid gwella'r ddarpariaeth. ........ Tudalen 40

**Casgliad 22.** Awgryma'r dystiolaeth fod angen strategaeth gyffredinol newydd. Gan fod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi bellach wedi'i gyhoeddi, bydd y Pwyllgor yn monitro ei weithrediad a'i effaith ac yn llunio adroddiad ynghylch hynny. ........ Tudalen 40

# 1. Cefndir yr ymchwiliad

**1.** Mae Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi dweud, yng nghyd-destun Brexit, fod angen gwerthu Cymru "yn fwy nag erioed". Ym mis Gorffennaf 2017, cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd â darn o waith i ystyried sut y gellid cyflawni hynny. Trafododd y Pwyllgor:

- sut y mae Cymru'n gwerthu ei hun i'r byd ar hyn o bryd;
- rôl swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru; a'r
- gwersi y gall Llywodraeth Cymru eu dysgu o wledydd sy'n debyg iddi o ran maint (heb fod yn yr UE).

**2.** Canolbwyntiodd ymchwiliad y Pwyllgor ar dri prif sector:

- twristiaeth;
- masnach a mewnfuddsoddi; ac
- addysg.

**3.** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2017, a chafwyd 17 o ymatebion. Gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth lafar yn ei gyfarfodydd yn ystod mis Mai a mis Hydref. Mae modd dod o hyd i'r sesiynau hyn ar dudalennau gwe'r Pwyllgor.

**4.** Ar 5 Hydref 2017, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o gyfarfodydd ym Mrwsel gyda'r cynrychiolwyr a ganlyn:

- Llysgenhadaeth Prydain
- Addysg Uwch Cymru
- Llywodraeth Cymru (masnach)
- Llysgenhadaeth Canada
- Llysgenhadaeth y Swistir
- Menter Iwerddon
- Europa yr Alban
- Cenhadaeth Seland Newydd i'r UE a NATO

**5.** Yn olaf, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

# 2. Trosolwg

**6.** Mae'r dasg o godi proffil gwlad fach fel Cymru ar y llwyfan byd-eang yn her enfawr. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, dywedodd diplomyddion a swyddogion masnach Canada wrth y Pwyllgor nad oeddent wedi clywed rhyw lawer am Gymru tan yn ddiweddar. Gobeithio eu bod bellach wedi cael argraff gadarnhaol o Gymru a'u bod yn rhannu'u gweledigaeth newydd ag eraill.

**7.** Dywedodd yr Athro Annette Pritchard, Cyfarwyddwr Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Twristiaeth, wrth y Pwyllgor fod y farchnad ryngwladol yn hynod heriol. Dywed fod Cymru'n cystadlu â brandiau pwerus cyrchfannau a lleoedd sydd â digon o adnoddau. Mae'n honni ymhellach fod llywodraethau sydd â chyllidebau mwy i hyrwyddo twristiaeth, ar y cyfan, yn denu mwy o wariant o dwristiaeth ryngwladol.[1]

**8.** Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru (WTA) wrth y Pwyllgor fod Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi bod yn werth €2.4 biliwn i Gymru dros y cyfnod 2014-2020, arian sydd wedi bod ar gael yn rhannol ar gyfer marchnata a datblygu busnesau twristiaeth a seilwaith, ac y bydd y cronfeydd hyn yn diflannu o ganlyniad i Brexit. Hefyd, dywedodd WTA yr haf diwethaf ein bod ymhell o fod wedi pennu effeithiau manwl Brexit heb sôn am fod yn gallu penderfynu ar y ffyrdd gorau o liniaru'r effeithiau hynny.[2] Er bod gwaith wedi ei wneud yn y cyfamser, mae ansicrwydd mawr o hyd.

**9.** Er bod Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wedi dweud bod angen inni werthu Cymru "yn fwy nag erioed o'r blaen", dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC, wrth y Pwyllgor ein bod mewn lle cryf iawn ar hyn o bryd, ar draws y portffolio cyfan.[3] Dywedodd wrth y Pwyllgor fod Cymru bellach yn ganolbwynt twristiaeth antur yn Ewrop,[4] gyda nifer yr ymwelwyr yn uwch nag erioed o'r blaen. Honnodd fod y ffaith bod y lefelau buddsoddiadau i Gymru yn y blynyddoedd diwethaf hefyd yn uwch nag erioed o'r blaen yn brawf o enw da Cymru fel lle gwych i wneud busnes ac yn dystiolaeth bod ein hymagwedd gyfeillgar at fusnesau yn talu ar ei ganfed.[5]

---

[1] Ymateb yr Athro Pritchard i'r ymgynghoriad

[2] Ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru i'r ymgynghoriad

[3] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 6

[4] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 9

[5] Llywodraeth Cymru 19 Hydref 2017

**10.** Roedd gan y Cyngor Prydeinig hefyd neges gadarnhaol i'r Pwyllgor. Dywedodd fod "ein sectorau addysg uwch ac addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn sectorau sydd â chysylltiadau cryf â'r byd".[6]

**11.** Ond trwy gydol yr ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor gan randdeiliaid a oedd am gael gwell ymgysylltiad. Roedd Dinas a Sir Abertawe yn pryderu am ddiffyg gwelededd ac ymgysylltiad â gwaith Llywodraeth Cymru dramor[7] a dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru wrth y Pwyllgor fod rhagor o waith i'w wneud i alluogi busnesau twristiaeth i ymgysylltu â'r brand.[8]

**12.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn priodoli'r llwyddiant hyd yn hyn i'r gwaith partneriaeth ag "ystod eang o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat" a swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, sydd "wedi'u lleoli ym marchnadoedd strategol bwysig Ewrop, UDA, Tsieina, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, India a Japan".[9]

**13.** Ym mis Mawrth eleni agorodd y Prif Weinidog swyddfa newydd ym Montreal, Canada. Mae'r swyddfa yn rhan o ymdrechion Llywodraeth Cymru i ehangu ei gwaith dramor, a'r nod yw "hybu masnach a mewnfuddsoddi i farchnadoedd newydd a marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli, a hyrwyddo Cymru i'r byd".[10] Cyhoeddwyd hefyd fod bwriad i agor swyddfeydd newydd yn Ffrainc, yr Almaen a Qatar,[11] a bod disgwyl iddynt agor cyn diwedd y flwyddyn.

**14.** Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr holl faterion hyn yn fanylach yng nghyd-destun Brexit a'r angen parhaus i gystadlu ar y llwyfan byd-eang i sicrhau Cymru ffyniannus i bawb.

[6] Ymateb y Cyngor Prydeinig i'r ymgynghoriad

[7] Ymateb Abertawe i'r ymgynghoriad

[8] Ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru i'r ymgynghoriad

[9] Llywodraeth Cymru 19 Hydref 2017

[10] https://gov.wales/newsroom/firstminister/2018/180302-first-minister-officially-opens-montreal-office/?lang=cy

[11] https://gov.wales/newsroom/firstminister/2017/171127-welsh-government-expands-overseas-operations-to-boost-trade-post-brexit/?lang=cy

# 3. Masnach a Mewnfuddsoddi

**15.** Pwysleisiodd y rhanddeiliaid bwysigrwydd arweinyddiaeth glir ar faterion rhyngwladol. Dywedodd Jenny Scott, Cyfarwyddwr Cymru, y Cyngor Prydeinig, wrth y Pwyllgor y dylid cael mwy o eglurder ar lefel Cabinet Cymru o ran y cyfrifoldeb am y portffolio rhyngwladol a bod Cymru yn anarferol oherwydd nad oes ganddi bortffolio gweinidogol ar wahân ar gyfer materion rhyngwladol.[12] Awgrymodd y byddai eglurder o'r fath yn arwain at well gwybodaeth am yr arian sydd ar gael ar hyn o bryd gan nifer o adrannau.

**16.** Roedd Iestyn Davies, Prif Weithredwr ColegauCymru, yn awyddus i bob Aelod Cynulliad ofyn cwestiynau yn y Senedd sy'n ymwneud â materion rhyngwladol, ond teimlai y dylai'r cyfrifoldeb am faterion rhyngwladol fod yn llorweddol yn ogystal ag yn fertigol ar draws y Llywodraeth.[13]

**Casgliad 1.** O ystyried yr ansicrwydd sy'n ymwneud â Brexit, mae llinell glir o atebolrwydd yn bwysicach nag erioed.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y manteision a'r rhesymeg bod materion Rhyngwladol yn cynnwys nifer o bortffolios. Fodd bynnag, yn y cyd-destun presennol, mae hefyd yn cydnabod y perygl o syrthio rhwng dwy stôl wrth rannu cyfrifoldebau.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried o ddifrif creu swydd benodol yn y Cabinet i gyfuno'r cyfrifoldebau am fasnach ryngwladol a gweithredu Brexit er mwyn rhoi mwy o ffocws i'r maes allweddol hwn a chyfleoedd rheolaidd a strwythuredig ar gyfer craffu.

**17.** Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur strategaeth economaidd "Ffyniant i Bawb". Mae'r strategaeth yn gosod cynllun pum mlynedd y Llywodraeth mewn cyd-destun hirdymor. Mae'r cynllun yn cydnabod y bydd ymadael â'r UE yn newid ein hamgylchedd rhyngwladol yn sylfaenol.[14]

**18.** Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor, ei fod yn croesawu'r newid pwyslais yn "Ffyniant i Bawb" i ganolbwyntio ar ddatblygu'r

---

[12] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraffau 86 ac 88

[13] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 87

[14] Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi tudalen 22

economi gynhenid yng Nghymru, ond nad oedd gan Lywodraeth Cymru strategaeth fasnach a buddsoddi ar gyfer Cymru sydd ar gael yn gyhoeddus.[15]

**19.** Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi",[16] sy'n ymhelaethu ar y strategaeth lefel uchel a gyhoeddodd wyth mis ynghynt, ac yn nodi'r camau angenrheidiol i gyflawni ei weledigaeth yn y dyfodol.

**20.** Teimlai'r Athro Stevens fod y cynllun gweithredu yn ychwanegu at y strategaethau sydd eisoes ar waith yng Nghymru. Fodd bynnag, teimlai hefyd y dylai'r strategaethau hynny gael eu mireinio er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol ac effeithlon.[17]

**21.** Roedd llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn awgrymu y gellid gwneud mwy i fireinio darpariaeth Llywodraeth Cymru. Un o brif themâu'r ymchwiliad oedd rhoi mwy o lais i'r amryw fusnesau bach a microfusnesau yng Nghymru sydd am gymryd rhan mewn cefnogi blaenoriaethau strategol y Llywodraeth. Er enghraifft, roedd yr Athro Stevens yn feirniadol o brosesau caffael Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau bach a chanolig, gan ddweud fel a ganlyn:

> "As a small business we go on Sell2Wales and to win a tender for, say, £30,000 to do a piece of work in Wales, you have to fill in the same forms as if you're building the third Severn crossing."[18]

## Allforio

**22.** Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor fod perfformiad Cymru o ran allforio wedi bod yn gryf oherwydd bod mwy o gwmnïau gweithgynhyrchu yma nag yng ngweddill y DU. Roedd yn cyfeirio at Ystadegau Masnach Rhanbarthol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy'n awgrymu bod cyfaint y fasnach wedi dyblu rhwng 1996 a 2016 i oddeutu £12 biliwn a'i bod, ar ei hanterth, yn £15 biliwn yn 2011.[19]

**23.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod wedi newid y dull o hyrwyddo Cymru dramor pan gymerodd gyfrifoldeb am y portffolio er mwyn

---

[15] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r ymgynghoriad a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 231

[16] Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi

[17] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 238

[18] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 265

[19] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r ymgynghoriad

tynnu ynghyd rai o'r gweithgareddau rhyngwladol eraill i ychwanegu gwerth at y gwaith o allforio busnesau. Teimlai fod y ffaith bod y lleoedd ar deithiau tramor ar gyfer busnesau Cymru yn llenwi mor gyflym yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r cymorth yr ydym yn ei gynnig a bod awch i fod yn rhan ohono.[20]

**24.** Cydnabu'r Ffederasiwn Busnesau Bach y bu mwy o weithgarwch yn ddiweddar mewn perthynas â theithiau masnach byd-eang, ond roedd yn galw am fwy o fusnesau bach a chanolig i gymryd rhan. Dywedodd Ben Cottam, y Ffederasiwn Busnesau Bach, wrth y Pwyllgor yr hoffai i Lywodraeth Cymru wneud y teithiau masnach yn fwy amlwg er mwyn i fusnesau, boed fach neu fawr, allu dweud eu bod am fod yn rhan ohonynt.[21] Teimlai y dylai'r Ffederasiwn Busnesau Bach fod â rhan mewn paru busnesau bach a chanolig uchelgeisiol gyda'r Llywodraeth wrth ddewis busnesau ar gyfer teithiau masnach. Dywedodd "we need to be taking the A team, and that might not always be the case".[22]

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth twf allforio i baratoi cwmnïau ar gyfer marchnadoedd rhyngwladol a chynyddu nifer y cwmnïau sy'n allforio.

## Swyddfeydd tramor

**25.** Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor ei fod yn teimlo nad yw swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, i bob golwg, yn cael effaith amlwg ar berfformiad allforio.[23] Mae dehongliad y Ffederasiwn Busnesau Bach o ddata allforio rhwng 2013 a 2016 yn dangos perfformiad gwael ym mhob un o'r gwledydd lle mae swyddfa Llywodraeth Cymru, a chynnydd sylweddol o allforion i ddwy wlad lle nad oes gan Lywodraeth Cymru swyddfa.[24]

**26.** Fodd bynnag, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn cyfeirio at ymchwil a wnaed gan yr Athro Max Munday sy'n awgrymu bod lefel yr adnoddau a'r personél mor bwysig â lleoliad wrth benderfynu ar effeithiolrwydd ond bod adnoddau'r swyddfeydd yn amrywio'n sylweddol yn ôl eu lleoliad, gyda "swyddfeydd gwleidyddol" (hynny yw Brwsel a Washington) yn gryfach na, er enghraifft, swyddfeydd Bangalore neu Delhi.[25]

---

[20] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 86

[21] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 271

[22] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 283

[23] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r ymgynghoriad

[24] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r ymgynghoriad

[25] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r ymgynghoriad

**27.** Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru 16 swyddfa dramor ac yn ôl ei dogfen strategaeth, Ffyniant i Bawb, mae'n bwriadu sefydlu rhagor. Fodd bynnag, dywedodd tystion wrth y Pwyllgor nad oeddent yn sicr o'u ffocws, gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn galw am i'w rôl fod yn gliriach fel rhan o Strategaeth Masnach a Buddsoddi.[26]

**28.** Dywed Llywodraeth Cymru fod y swyddfeydd tramor yn gyfrifol am fasnach a buddsoddi, cysylltiadau llywodraethol, twristiaeth, diwylliant ac addysg.[27] Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor ei fod yn teimlo nad oes gan y swyddfeydd ddigon o adnoddau[28] ar gyfer cylch gwaith mor eang.

**29.** Roedd y Cyngor Prydeinig hefyd o'r farn nad oedd digon o adnoddau yn y swyddfeydd. Dywedodd eu Cyfarwyddwr yng Nghymru wrth y Pwyllgor fod gan y Cyngor bum swyddfa a 750 o staff, ac mai dim ond tair swyddfa a phump o staff sydd gan Lywodraeth Cymru yn Tsieina. Yn y cyd-destun hwn, dywedodd Jenny Scott o'r Cyngor Prydeinig fel a ganlyn: "my first port of call wouldn't be necessarily to the Welsh Government office there, because I would think that they're going to be overloaded and have a lack of capacity".[29]

**30.** Dywedodd Dinas a Sir Abertawe wrth y Pwyllgor: "whilst we are broadly aware of the trade and investment overseas offices, currently there does not appear to be any working links between these and local authorities who could support each other in this area of work".[30]

**31.** Dywedodd Prifysgol Abertawe hefyd nad oedd ganddi lawer o ymgysylltiad â'r swyddfeydd a phan wnaed cais i sicrhau bod unrhyw ddirprwyaeth sy'n dod i Gymru yn cael cyfle i ymweld â cholegau, nid yw hynny wedi digwydd hyd y gwyddai.[31]

**32.** Gofynnodd yr Athro Stevens am ragor o eglurder ar ddiffinio llwyddiant gweithgareddau a anelir at ddenu mewnfuddsoddiad, gan awgrymu y gallai hynny ymwneud yn hytrach â nifer y rhwydweithiau a gaiff eu creu ac effeithiolrwydd y rhwydweithiau hynny nag ag arian sychion yn unig.[32]

---

[26] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r ymgynghoriad

[27] https://llyw.cymru/contact_us/officelocations/international/?skip=1&lang=cy

[28] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r ymgynghoriad

[29] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 53

[30] Ymateb Cyngor Dinas a Sir Abertawe i'r ymgynghoriad

[31] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 54

[32] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 278

**33.** Cytunodd ColegauCymru â'r angen am eglurder a ffocws, gan ddweud bod angen inni fod â ffocws gwbl glir a gofyn beth fydd yn rhoi'r gwerth gorau inni am ein buddsoddiad.[33]

**34.** Dywedodd y Cyngor Prydeinig wrth y Pwyllgor:

> "Wales is fortunate, isn't it, that it has this huge network of Foreign and Commonwealth Office and Department for International Trade presence in every country in the world, and I think there's more that could be done from Wales to assert itself within those networks to make the most of that opportunity, which not all small nations have."[34]

**35.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor y byddai swyddfeydd tramor yn cael eu cynnwys wrth integreiddio'r strategaeth ryngwladol. Dywedodd:

> "we've put together business plans so that we know exactly what subsectors we're interested in, whether it be talking about foreign direct investment, what opportunities there are in terms of exporters and also the interest, whether it be from a tourism or higher education perspective. So, moving forward, we have business plans in place for all of our overseas offices and we will be working towards those in terms of our delivery so that we're very proactive and positive in the way that we're projecting ourselves and the type of activity we're doing overseas."[35]

**36.** Ers rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi agor swyddfa arall ym Montreal.

**Casgliad 3.** Nid yw cylch gwaith eang y swyddfeydd tramor yn adlewyrchu'r lefel o adnoddau sydd ganddynt. Da o beth fyddai cael mwy o eglurder am bwrpas y swyddfeydd a'r meini prawf a ddefnyddir i fesur eu llwyddiant.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth ddefnyddio'r rhwydwaith presennol o swyddfeydd Tramor a Chymanwlad a'r Adran Fasnach Ryngwladol a chysylltiadau ledled y byd.

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi cylch gwaith manwl ar gyfer y swyddfeydd tramor, a llunio adroddiad i'r Cynulliad bob blwyddyn ar y modd y mae pob swyddfa yn cyflawni'r hyn sydd yn y cynllun busnes.

[33] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 78
[34] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 80
[35] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 156

**Argymhelliad 5.** Dylai busnesau a rhanddeiliaid gael gwybod am gylch gwaith y swyddfeydd tramor er mwyn hybu deialog rhyngddynt, a gwneud yn fawr o'r swyddfeydd. Dylai unrhyw swyddfeydd tramor ychwanegol ganolbwyntio ar farchnadoedd sydd â photensial uchel.

## Mewnfuddsoddi

**37.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn feirniadol o bolisi mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru, gan ddweud ei fod, i bob pwrpas, yn rhedeg i sefyll yn ei unfan. Oherwydd bod buddsoddwyr yn adleoli i chwilio am leoliadau eraill a noddir gan y llywodraeth, mae tua'r un faint o swyddi yn gadael Cymru ag a gaiff eu creu gan gwmnïau sy'n dod i mewn.[36] Roedd yn awyddus i weld mewnfuddsoddiad yn cael ei farnu am ansawdd ei waddol yn hytrach na dim ond defnyddio ffigur y swyddi a grëwyd i greu penawdau.[37] Ystyrir isod yr angen am alinio ag amcanion y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol hefyd.

**38.** Dywedodd yr Athro Stevens wrth y Pwyllgor y gellid gwneud mwy i "gysylltu'r dotiau" a dewis y mewnfuddsoddiadau hynny sydd wir yn ychwanegu rhywbeth at ein mantais gystadleuol.[38]

**39.** Awgrymodd y Ffederasiwn Busnesau Bach y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu agwedd at fewnfuddsoddi sy'n blaenoriaethu'r mathau cywir o brosiectau i helpu i adeiladu ar asedau Cymru ac i feithrin ein capasiti domestig[39] ac wrth wneud hynny, rhoi sylw o'r newydd ar nodau economaidd ehangach.

**40.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod Awdurdod Datblygu Cymru, yn y gorffennol, wedi gweithredu mewn modd a ddenodd swyddi byr-dymor i Gymru.[40] Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod hynny bellach wedi newid ac roedd erbyn hyn yn fwy cynaliadwy: "we are developing an approach that will ensure that we continue to grow the sectors and the sector specialisms – sub-sectoral specialisms – that have already contributed significantly to economic growth and to job creation".[41]

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffocws newydd ar ansawdd mewnfuddsoddiad sy'n cryfhau busnesau a sectorau cynhenid, ond oherwydd yr

[36] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r ymgynghoriad

[37] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 250

[38] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 257

[39] Ymateb y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r ymgynghoriad

[40] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 46

[41] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 40

ansicrwydd ynghylch Brexit, y canfyddiad nad oes digon o adnoddau yn y swyddfeydd tramor a'r anhawster a gafwyd o ran ymgysylltu â busnesau yma yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor bryderon am allu Llywodraeth Cymru i gyflawni.

**Casgliad 5.** Dylai Argymhelliad 4 y Pwyllgor gryfhau'r ffocws a'r gwaith craffu a fyddai'n helpu i roi sicrwydd bod y ffocws newydd ar fewnfuddsoddi yn cael ei gyflawni.

## Datblygu

**41.** Fel y soniwyd eisoes, clywodd y Pwyllgor y gellid gwella'r gefnogaeth i fusnesau yng Nghymru a'r rhan y maent yn ei chwarae o ran hyrwyddo'u cynnyrch dramor.

**42.** Dywedodd yr Athro Stevens mai'r maes sy'n ein gwneud ni'n arbennig ac yn wahanol, yw cryfder ein busnesau bach a'n microfusnesau.[42] Fel arfer, bydd gan fusnesau bach a microfusnesau lai o adnoddau i ymroi i ddatblygu staff a chyfleoedd busnes, ond mae'r Athro Stevens yn dadlau bod cynnwys y busnesau hynny yn y drafodaeth am y dyfodol yn hanfodol i'w hyder.

**43.** Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd fod angen gwneud mwy i gefnogi ein heconomi yn y dyfodol. Teimlai fod angen trafod y bwlch rhwng y strwythur a'r strategaethau sydd gennym ar waith a'r sgiliau a'r capasiti i'w cyflawni. Dywedodd:

> "I think we have to address in this whole exercise the human resource aspect of Wales— building capacity, building mechanisms to encourage innovation and creativity and, if you like, allowing disciplines to collide, because that's where the innovation really happens."[43]

**44.** Gweinyddir Busnes Cymru gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fusnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yng Nghymru. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor fod yr adborth gan ei aelodau yn gadarnhaol ar y cyfan, ond bod cyfle iddo fynegi ei hun yn fwy masnachol ac yn fwy effeithiol.[44]

---

[42] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 277

[43] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017paragraff 263

[44] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017paragraff 314

**45.** Teimlai'r Ffederasiwn Busnesau Bach y gallai fod gwell cefnogaeth i fusnesau llai i ddod o hyd i ffyrdd o elwa ar ddigwyddiadau mawr a gynhelir yn eu hardal. Galwodd am ymgyrch i fusnesau bach ynghylch sut y gallant fanteisio ar y sylw.[45]

**46.** Gwelai'r Athro Stevens gyfle i Lywodraeth Cymru gefnogi busnesau llai yn well trwy hwyluso gwell cydweithio rhwng mentrau. Dywedodd:

> "so, rather than, let's say, 10 different sailing events taking place in Pwllheli over the course of nine months, tell them to try to coalesce, and then you present a critical mass that's understandable, coherent, and you're capable of going to a global audience and saying, 'Here's something meaningful.'"[46]

Rhoddodd enghraifft hefyd i'r Pwyllgor i ddangos sut yr oedd cydweithredu wedi gweithio mewn man arall, gan ddweud:

> "where Scotland hits hard is that they'll find an entrepreneur operating in Scotland—an indigenous business—and actually start pairing them with entrepreneurs from another country."[47]

**47.** Mae'r ddogfen "Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi", a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2018, yn ceisio alinio polisi gydag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys cydweithredu a chyfranogiad. Mae'r cynllun gweithredu yn anelu at sbarduno twf cynhwysol a dosbarthiad tecach o gyfleoedd ac mae'n cydnabod mai dim ond trwy gydweithio y byddwn yn adeiladu economi gref, gydnerth ac amrywiol i bobl Cymru.[48]

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen am roi cefnogaeth i fusnesau bach a microfusnesau i'w helpu i ddatblygu, cydweithio ac arloesi gyda'u hadnoddau cyfyngedig.

---

[45] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 341

[46] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 360

[47] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 306

[48] Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi

# 4. Twristiaeth

**48.** Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru (WTA) wrth y Pwyllgor fod twristiaeth fel cyflogwr, fel symbylydd economaidd ac fel ceidwad cyfleusterau a chyfleoedd cymunedol – sydd efallai yr un mor arwyddocaol – yn hollbwysig ac anhepgor.[49]

**49.** Mae'r WTA yn amcangyfrif bod cyfanswm cyfraniad yr economi ymwelwyr yn cyfrif am 13.3 y cant o gyfanswm economi Cymru, o gymharu ag 8.6 y cant yn Lloegr, 10.4 y cant yn yr Alban a 4.9 y cant yng Ngogledd Iwerddon.

**50.** Dywedodd yr Athro Pritchard wrth y Pwyllgor mai Cymru yw'r rhanbarth mwyaf dibynnol ar dwristiaeth yn y DU gyfan. Er bod ganddi gymaint i'w gynnig i dwristiaid, mae'n dal i gael trafferth denu mwy na chyfran o 2 y cant o'r farchnad o ymwelwyr rhyngwladol, gyda De-orllewin Lloegr gerllaw yn denu 5 y cant a'r Alban yn denu'n nes at 8.5 y cant.[50]

**51.** Yn "Partneriaeth ar gyfer Twf", 2013, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod twristiaeth yn "gyfrannwr mawr" at economi Cymru. Mae hefyd yn cydnabod na ellir cyflawni'r strategaeth ar ei phen ei hun, gan ddweud bod "partneriaeth wrth wraidd y strategaeth hon, gan na ellir sicrhau llwyddiant heb nod cyffredin a gwaith tîm gan y Llywodraeth, y sector preifat a sefydliadau rhanddeiliaid eraill". O ran yr ymarferoldeb o weithio mewn partneriaeth, mae Llywodraeth Cymru yn dweud: "fel gwlad fach, rydym mewn sefyllfa ddelfrydol i gydweithio fel tîm er mwyn llywio llwyddiant i Gymru".[51]

**52.** Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth sy'n awgrymu bod mwy o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y bartneriaeth honno'n llwyddiant. Dywedodd WTA bod angen ymgysylltu llawer mwy â'r diwydiant, yn enwedig busnesau llai.[52]

**53.** Er bod dealltwriaeth dda o ddull busnes-i-fusnes Croeso Cymru, roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn pryderu fod perygl, yng nghyd-destun amser ac adnoddau cyfyngedig, y byddai'n hawdd i Croeso Cymru ganolbwyntio ar weithio gyda'r busnesau y mae ganddynt berthynas â hwy eisoes. Mae tystiolaeth Abertawe yn awgrymu fod perygl nad yw rhai busnesau yn teimlo'n rhan o "deulu" Croeso Cymru a'u bod yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r cyfleoedd marchnata

---

[49] Ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru i'r ymgynghoriad

[50] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 42-45

[51] Partneriaeth ar gyfer Twf: strategaeth ar gyfer twristiaeth 2013 - 2020

[52] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 56

sydd ar gael, am nad oes iddynt ran yng ngweithgareddau Croeso Cymru dramor.[53]

**54.** Dywedodd tystion wrthym fod busnesau'n teimlo eu bod wedi'u heithrio nid yn unig o'r cyfleoedd marchnata y gallai Croeso Cymru eu cynnig iddynt, ond hefyd o'r brand Cymreig. Caiff y rhain eu trafod yn fanylach isod.

## Brandio

**55.** Mae brandio, sydd wedi'i adeiladu ar ddealltwriaeth ddofn o gryfderau gwlad a'r canfyddiadau ohoni o amgylch y byd, yn gonglfaen i'r strategaethau sydd gan wledydd fel Canada a'r Swistir.

**56.** Yn nhermau twristiaeth, mae gan Gymru lawer i'w gynnig i ymwelwyr domestig a thramor. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod y brand wedi ennill gwobrau a'i fod yn cael ei ystyried yn feincnod.[54] Dywedodd hefyd:

> "back in 1985, around the world, billboards were going up that said, 'if adventure has a name, it must be Indiana Jones'. I think we can genuinely say now, 'if adventure has a home, it's Wales'. We are at the centre of adventure tourism in Europe, and that is as a consequence of having a very strong, concerted effort and one vision to promote Wales on the back of what is genuinely its greatest strength, which is the great outdoors and its heritage and culture."[55]

**57.** Dywedodd WTA wrth y Pwyllgor fod brand Cymru wedi cryfhau ac wedi cael ei atgyfnerthu[56] er bod tystion eraill yn galw am ddatblygu'r brand ymhellach er mwyn adlewyrchu'r Gymru fodern.

**58.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg wrth y Pwyllgor y dylid defnyddio'r Gymraeg i hybu twf busnesau a hyrwyddo economi Cymru. Mynegodd rwystredigaeth nad oedd adolygiad cynnydd "Partneriaeth ar gyfer Twf" 2016 yn cyfeirio at gynnydd wrth hyrwyddo'r Gymraeg, "ac eithrio am nodi bod Croeso Cymru wedi lansio gwefan yn y Gymraeg".[57]

---

[53] Ymateb Cyngor Dinas a Sir Abertawe i'r ymgynghoriad

[54] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 12

[55] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 7 - 9

[56] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 56

[57] Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'r ymgynghoriad

**59.** Cytunodd yr Athro Morgan, Pennaeth Rheoli Busnes ym Mhrifysgol Abertawe, fod iaith yn ffordd dda o gyfleu ymdeimlad o le a hunaniaeth i wlad. Cyfeiriodd at yr ail-frandio llwyddiannus ar arfordiroedd Sbaen yn ystod y 25 mlynedd diwethaf. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "they've brought high-quality food, they've brought gastronomy, they've brought wine, they've brought culture, they've brought the language into the brand, and, actually, that's very similar to what we would like to see here, isn't it?"[58]

**60.** Cytunodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gan ddweud wrth y Pwyllgor y dylai twristiaeth fod yn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw a bywiog, o ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a datblygu'r iaith.[59]

**61.** Teimlai Maes Awyr Caerdydd fod Cymru'n creu brand cryf, unedig ar gyfer y genedl gyfan ond roedd hefyd yn cydnabod bod angen amser i frand fwrw gwreiddiau. Dywedodd Cassie Houghton, Pennaeth Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus, wrth y Pwyllgor, ei bod yn bwysig, wrth sefydlu brand, i ymgysylltu â'r cynhyrchion a'r gwasanaethau eu hunain i sicrhau eu bod yn cyfateb i'r hyn y mae'r brand yn ei ddweud.[60]

**62.** Dywedodd WTA wrth y Pwyllgor ei fod yn meddwl y gallai'r ymgysylltiad fod yn well er mwyn galluogi busnesau bach yn benodol i gael mynediad i'r brandio. Roedd o'r farn y dylai'r mynediad i'r brand fod yn amodol ar sicrhau ansawdd a diogelu safonau ond roedd yn galw am wybodaeth am sut i gymryd rhan, sut i ddiogelu'r cynnyrch, a datblygu'r cynnyrch, fel bod yno gylch ystyrlon.[61]

**63.** Dywedodd yr Athro Nigel Morgan, Pennaeth Rheoli Busnes ym Mhrifysgol Abertawe, wrth y Pwyllgor: "my understanding is that there will be some loosening of the proprietorial protection of the brand—the logo bit of the brand, if you like. I think that needs to happen".[62]

**64.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod y brand wedi ei adeiladu ar ddau beth: dangos Cymru i'r byd, ond ei bod yr un mor bwysig fod y brand yn ysbrydoli pobl Cymru i'w gymryd atynt.[63]

---

[58] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 71
[59] Ymateb Cymdeithas Ddysgedig Cymru i'r ymgynghoriad
[60] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 212 - 213
[61] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 56-60
[62] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 62
[63] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 60

**Casgliad 7.** Mae gan Gymru frand cryf ond er gwaethaf bwriadau Llywodraeth Cymru, mae llawer o fusnesau Cymru yn teimlo nad ydynt yn rhan ohono.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i alluogi ystod ehangach o fusnesau yng Nghymru i gael mynediad i'r brand, ond gan gadw rheolaeth ar y safonau ar yr un pryd.

## Presenoldeb digidol

**65.** Mae Cymru yn cael ei chynrychioli ar nifer o wefannau. Mae "VisitBritain.org" a "VisitBritain.com", sy'n cwmpasu'r DU, yn ymgorffori Visit Britain a Visit England, ond prin yw'r cyfeiriadau at Gymru. Mae Cymru'n defnyddio "Wales.com", "VisitWales.com", "Croeso.Cymru", "StudyInWales.ac.uk" a "TradeAndInvest.Wales".

**66.** Dywedodd yr Athro Pritchard wrth y Pwyllgor fod yn rhaid cwestiynu i ba raddau y mae'r brand Cymreig wedi'i ymgorffori yng nghynnwys Visit Britain am fod yr erthyglau brin yn sôn am Gymru.[64] Dadansoddodd bresenoldeb Cymru ar siop ar-lein VisitBritain.com a chafodd fod gan Gymru 24 o gynhyrchion i gyd, tra bod gan yr Alban 37, a Lloegr (ac eithrio Llundain) 115. Erbyn Mehefin 2018, roedd nifer y cynhyrchion Cymraeg a oedd ar gael ar wefan VisitBritain wedi gostwng i 16.

**67.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod y ffaith fod VisitBritain a VisitEngland wedi uno yn creu rhywfaint o broblem o ran sut y cawn ein gweld fel partneriaid cyfartal yn VisitBritain.[65] Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'n codi'r mater mewn cyfarfod gweinidogol o'r gwledydd datganoledig, ac y byddai swyddog o Lywodraeth Cymru yn gweithio ar secondiad gyda VisitBritain i fynd i'r afael â'r mater. Ers cael tystiolaeth ar hyn, ymddengys bod y wefan yn cynrychioli Cymru'n well fel rhan o frand y DU, a bod Cymru'n amlwg ar y dudalen gartref ym mis Mehefin 2018, er bod nifer y cynhyrchion y gellir eu harchebu wedi gostwng.

**68.** Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio pedair gwefan wahanol i gyflwyno Cymru i'r byd. Ymatebodd Cyngor Bro Morgannwg i ymgynghoriad y Pwyllgor yn dweud bod yr awdur a'i gydweithwyr wedi gweithio ym maes datblygu economaidd a thwristiaeth ers blynyddoedd ond nad oeddent wedi clywed am Wales.com.[66]

---

[64] Ymateb yr Athro Pritchard i'r ymgynghoriad

[65] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 116

[66] Ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r ymgynghoriad

**69.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn disgrifio Wales.com fel gwefan drawsbynciol sydd hefyd yn gweithio fel porth ar gyfer y safleoedd eraill. Dywed bod y wefan yn cyfarwyddo ymwelwyr busnes ac ymholiadau at safle *tradeandinvest.wales* a thîm Busnes Cymru.[67] Mae gwefan VisitWales.com yn hyrwyddo twristiaeth ac yn denu ymwelwyr hamdden i Gymru. Mae'r gwefannau yn rhoi gwybodaeth, ond nid ydynt yn galluogi ymwelwyr â'r safle i archebu neu brynu cynhyrchion Cymreig.

**70.** Dywedodd WTA wrth y Pwyllgor fod ymwelwyr tramor yn cyfrif am lai na 5 y cant o ymweliadau twristiaeth, ond yn cyfrif am 10 y cant o wariant twristiaeth[68] felly mae gwerth mewn ceisio denu ymwelwyr tramor o'r tu hwnt i Lundain i Gymru. Yn 2016, denodd Caerdydd 357,000 o ymwelwyr i'r ddinas, gan ei roi yn y 10fed safle ymhlith dinasoedd y DU. Denodd Bryste, ei gystadleuydd agosaf, 570,000.[69]

**71.** Dywedodd yr Athro Pritchard wrth y Pwyllgor:

> "Research shows that [overseas] visitors are unable to imagine the types of holidays available to them outside of London and itineraries and London Plus packages are important when facilitating visits when visitor knowledge is low. Wales needs to work even harder than other GB competitor regions/countries because of its low awareness and that will require increased funding and product/package tour itinerary development."[70]

**72.** Fodd bynnag, dywedodd WTA wrth y Pwyllgor hefyd na all VisitWales.com gynnwys cynnyrch y gellir ei archebu oherwydd y cyfyngiadau ar y Llywodraeth, ond galwodd am eglurder ynghylch y rheolau cymorth gwladwriaethol hynny ar ôl i'r DU adael yr UE.[71]

**73.** Galwodd Dinas a Sir Abertawe am well cysylltiadau rhwng y gwefannau. Dywedodd y Cyngor wrth y Pwyllgor y byddai'n hoffi gweld Abertawe yn fwy amlwg yn neunyddiau marchnata Llywodraeth Cymru a hyperlincs at ei wefannau ef ei hun.[72]

---

[67] Llywodraeth Cymru 19 Hydref 2017

[68] Ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru i'r ymgynghoriad

[69] Ymateb yr Athro Pritchard i'r ymgynghoriad

[70] Ymateb yr Athro Pritchard i'r ymgynghoriad

[71] Ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru i'r ymgynghoriad

[72] Ymateb Cyngor Dinas a Sir Abertawe i'r ymgynghoriad

**74.** Roedd Maes Awyr Caerdydd yn ystyried y gwefannau fel canolbwynt er mwyn gallu gwthio'r cynnwys allan drwy strategaethau'r cyfryngau digidol.[73]

**75.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn ceisio gwella'r ôl troed digidol yn gyson ac y bydd y prosiect newydd Porth Digidol Cymru yn cynnig gwell integreiddio rhwng y safleoedd presennol ac yn sicrhau taith fwy esmwyth i gynulleidfaoedd sy'n chwilio am wybodaeth am Gymru.[74] Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor fod nifer yr ymwelwyr rhyngwladol yn 2016 wedi pasio'r miliwn am y tro cyntaf ers 2008 a bod ymgysylltu VisitWales drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cyfrif am oddeutu £30 miliwn o'r gwariant ychwanegol a ragwelwyd yn 2016.

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r gwaith ymgysylltu digidol cadarnhaol y mae Croeso Cymru wedi'i wneud. Fodd bynnag, er bod rhywfaint o welliant wedi bod ar safle VisitBritain, mae lle i wella o hyd, yn enwedig yn y nifer o gynhyrchion sydd ar gael y gellir eu harchebu, sy'n hanfodol wrth ddenu ymwelwyr o wledydd tramor.

**Casgliad 9.** Gallai'r cyfyngiadau presennol sy'n atal cynhyrchion y gellir eu harchebu rhag cael eu cynnwys ar wefan Croeso.Cymru newid ar ôl i'r DU adael yr UE.

**Casgliad 10.** Gellid defnyddio Croeso.Cymru gan Lywodraeth Cymru fel dull o gyrraedd busnesau bach a microfusnesau sy'n dymuno cefnogi brand Cymru.

**Casgliad 11.** Gan gydnabod pwysigrwydd pecynnau a chynhyrchion y gellir eu harchebu, dylai Llywodraeth Cymru roi cefnogaeth ac anogaeth i fusnesau bach a microfusnesau allu cydweithio a datblygu pecynnau yn eu hardaloedd.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo am well cynrychiolaeth fel rhan o bresenoldeb digidol VisitBritain, gan gynnwys nifer y cynhyrchion y gellir eu harchebu.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai Croeso.Cymru gynnig cynhyrchion y gellir eu harchebu.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau bach a microfusnesau a darparwyr y trydydd sector i

[73] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 255

[74] Llywodraeth Cymru 19 Hydref 2017

gydweithredu a datblygu pecynnau twristiaeth y gellir eu harchebu yn eu hardaloedd.

## Digwyddiadau

**76.** Mae Cymru wedi cynnal rhai digwyddiadau arbennig iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dilynwyd rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr yr UEFA yn 2017 gan Ras Cefnfor Volvo, a ddewisodd Caerdydd fel un o'r tair ar ddeg dinas ryngwladol i gynnal y ras yn 2018. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor, yn ogystal â denu digwyddiadau rhyngwladol mawr i Gymru, ei fod hefyd wedi ymrwymo i gefnogi portffolio o ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol "cartref", megis Gŵyl Lenyddol y Gelli, Gŵyl Gerddorol y Dyn Gwyrdd a Gŵyl Gomedi Machynlleth.[75]

**77.** Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn amheus o waddol y buddion sy'n deillio o'r digwyddiadau sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru. Dywedodd Ben Cottam, Pennaeth Materion Allanol, wrth y Pwyllgor ei fod yn teimlo bod meddylfryd o danio ac anghofio mewn perthynas â digwyddiadau mawr yng Nghymru. "Yes, we get a warm feeling from the exposure that gives us, but the legacy of the exposure could be better".[76] Awgrymodd y gellid cael rhagor o fuddion drwy ymgyrch i helpu busnesau bach i wneud cysylltiadau â'r marchnadoedd sy'n cael eu denu gan ddigwyddiadau mawr, a sut i elwa ar y sylw hwnnw.[77]

**78.** Cododd Cymdeithas Twristiaeth Ewrop bryderon am y tarfu a achosir gan ddigwyddiadau mawr. Teimlai, os ydych chi'n cynnal digwyddiad mawr mewn ardal, mai'r neges i'ch cwsmeriaid arferol yw eich bod wedi cau ar gyfer busnes. Dywedodd fel a ganlyn wrth y Pwyllgor:

> "I would be very cautious about holding large events, and if you do, remember to contain them very carefully and try and maintain that your regular business is unaffected by such an event. Bigger event: bigger disruption, bigger problem."[78]

**79.** Roedd tystion eraill yn pryderu bod digwyddiadau mawr cael eu cynnal yng nghanol Caerdydd fel arfer ac nad oeddynt yn dod â buddion na gwaddol i ardaloedd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd, ar gyfer

[75] Llywodraeth Cymru 19 Hydref 2017
[76] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 343
[77] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraffau 341 a 343
[78] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 273

digwyddiadau mawr iawn, fod gwestai mor bell â Weston-super-Mare yn cael eu defnyddio ar gyfer staff sy'n gweithio yng Nghaerdydd gan fod gwestai yn cael eu defnyddio ar draws ardal eang.[79]

**80.** Galwodd WTA am adolygiad agored o'r farchnad digwyddiadau mawr ac asesiad o allu Cymru i feithrin cyfran o'r farchnad a dosbarthu unrhyw fuddion ledled Cymru.[80]

**81.** Yn union fel yn achos agweddau eraill ar ymchwiliad y Pwyllgor, gwnaed galwadau hefyd i Lywodraeth Cymru wella ei dulliau cyfathrebu â rhanddeiliaid yng Nghymru a allai ychwanegu at ddigwyddiadau mawr neu gael budd ohonynt pe baent yn cymryd rhan yn gynharach.

**82.** Croesawodd Dinas a Sir Abertawe y posibilrwydd o weithio'n agosach â Llywodraeth Cymru ar ddigwyddiadau mawr, gan ddweud:

> "There is a general feeling that many local authorities often ffioedd disenfranchised from initial discussions over the wider strategy of attracting major international events despite a Major Events Strategy (MES) being in place."[81]

**83.** Soniodd y Cyngor Prydeinig wrth y Pwyllgor am y manteision posibl o ddod â'r byd i'n glannau drwy sefydlu cynhadledd ryngwladol, expo neu ŵyl broffil uchel yng Nghymru. Galwodd Jenny Scott, Cyfarwyddwr Cymru, y Cyngor Prydeinig am ymchwil i ystyried pa fodel a allai weithio i Gymru, er mwyn arddangos y diwylliant gorau o Gymru a denu nifer fawr o hyrwyddwyr rhyngwladol, twristiaid a llunwyr polisi i Gymru.[82]

**84.** Awgrymodd Prifysgolion Cymru fod yna gyfleoedd pellach i Lywodraeth Cymru weithio gydag asiantaethau perthnasol i annog cynadleddau Addysg Uwch rhyngwladol ar raddfa fawr.[83]

**85.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor, eu bod, yn 2015, wedi cefnogi 35 o ddigwyddiadau gwahanol a helpodd i ddenu 348,000 o ymwelwyr i Gymru gan gefnogi 1,200 o swyddi. Pan ofynnwyd iddynt am yr elw ar y buddsoddiad ar gyfer digwyddiadau o'r fath, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at

---

[79] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 306

[80] Ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru i'r ymgynghoriad

[81] Ymateb Cyngor Dinas a Sir Abertawe i'r ymgynghoriad

[82] Ymateb Cyngor Prydeinig Cymru i'r ymgynghoriad

[83] Ymateb Prifysgolion Cymru i'r ymgynghoriad

ymchwil sy'n amcangyfrif elw o 8: 1 ar ddigwyddiadau sy'n pontio'r cenedlaethau.[84]

**Casgliad 12.** Mae Cymru'n perfformio'n dda wrth ddenu digwyddiadau rhyngwladol mawr, a rhoddodd Llywodraeth Cymru enghreifftiau o'r gefnogaeth a roddir i ddigwyddiadau "cartref". Gellid gwneud mwy i helpu rhanddeiliaid i elwa ar ddigwyddiadau a chreu gwaddol, ond bydd gweithredu'r argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud ag ymgysylltu a gweithio ar draws sectorau yn cael effaith ar y maes hwn.

## Trafnidiaeth gyhoeddus

**86.** Dywedodd WTA wrth y Pwyllgor fod y ddarpariaeth o ran trafnidiaeth gyhoeddus weithiau'n is na'r disgwyl ar gyfer twristiaid. Dywedodd Adrian Barsby, Cadeirydd, "If you look at the train and bus timetables on a Sunday, anybody would think that we still just go to church on Sundays and don't do anything else".[85]

**87.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y fasnachfraint rheilffordd newydd KeolisAmey, a reolir gan Trafnidiaeth Cymru, yn bwriadu mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd gan dystion yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau ar y Sul.

**88.** Yn ogystal â gwasanaethau rheolaidd gyda'r nos ac ar ddydd Sul, galwodd tystion hefyd am docyn rheilffyrdd Cymru i ddenu twristiaid tramor allan o Lundain. Dywedodd yr Athro Pritchard wrth y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o ymwelwyr tramor yn hoffi dod ar y trên. Dywedodd eu bod am gael dewisiadau hawdd i'w prynu.[86]

**89.** Ar hyn o bryd mae Trenau Arriva Cymru yn cynnig Pas Archwilio Cymru dros bedwar diwrnod ar rwydwaith Cymru a'r Gororau. Disgwylir i hyn barhau o dan y fasnachfraint newydd.

**90.** O ran teithio ar awyrennau, dywedodd yr Athro Pritchard wrth y Pwyllgor "APD [Air Passenger Duty] has also suppressed tourism economic growth, employment prospects and revenue contributions and is recognised across the Senedd and the sector as hampering Cardiff Wales Airport's ability to expand and operate as a hub for international tourism to Wales".[87]

[84] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 176
[85] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 185
[86] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 188
[87] Tystiolaeth ychwanegol yr Athro Prichard i'r Pwyllgor

**Casgliad 13.** Gallai hyrwyddo mwy ar y Pas Archwilio Cymru annog twristiaid tramor i aros yng Nghymru ychydig yn hirach cyn symud ymlaen.

**Argymhelliad 10.** Dylai Trafnidiaeth Cymru ystyried y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth am y Pas Archwilio Cymru fel rhan o'r trefniadau masnachfraint newydd ar gyfer y rheilffyrdd.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo Llywodraeth y DU ar ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru.

## Sgiliau

**91.** Yn ystod yr ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor lawer am bwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i Gymru. Dywedodd yr Athro Morgan fod economi ymwelwyr Cymru yn beiriant o entrepreneuriaeth, adfywiad, cynhwysiant economaidd a chymdeithasol a thwf cynaliadwy.[88]

**92.** Disgrifiodd yr Athro Pritchard dwristiaeth fel un o'r diwydiannau sy'n perfformio orau yng Nghymru, un o'r prif gyfranwyr at dwf yng Nghymru, un o'r sectorau blaenoriaeth sy'n cyflawni orau yn Llywodraeth Cymru, ac eto, mae'n fath o ddiwydiant Sinderela.[89]

**93.** 'Partneriaeth ar gyfer Twf' yw Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth 2013 – 2020, ond dywedodd tystion wrth y Pwyllgor nad oes cynllun gweithredu ar waith ar gyfer tair blynedd olaf y strategaeth honno. Dywedodd WTA wrth y Pwyllgor:

> "We're now operating a key strategy of Government without an action plan, and I guess if we are going to address all five Ps, particularly the two Ps in terms of profitable performance and people development, then, some form of action plan is going to be crucial."[90]

**94.** Mynegodd WTA ei bryderon y byddai'r prinder sgiliau presennol yn y diwydiant yn cynyddu ar ôl Brexit, oherwydd y ddibyniaeth bresennol ar wladolion yr UE ac effaith niweidiol yr ansicrwydd presennol ynghylch eu statws yn y dyfodol. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod iechyd y diwydiant twristiaeth yn y dyfodol yn dibynnu ar ddatrys yr ansicrwydd hwn yn gynnar iawn.[91]

---

[88] Ymateb yr Athro Morgan i'r ymgynghoriad
[89] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 13
[90] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017 paragraff 15
[91] Ymateb Cynghrair Twristiaeth Cymru i'r ymgynghoriad

**95.** Galwodd WTA hefyd am gymryd camau i fynd i'r afael â materion lefelau cyflog, amodau gwaith, enw da'r diwydiant a digonolrwydd darpariaeth hyfforddiant addas.

**96.** Dywedodd yr Athro Morgan wrth y Pwyllgor ei fod credu bod gwaith mawr i'w wneud i berswadio pobl fod hwn yn ddiwydiant o bwys. Galwodd ar bobl i gydnabod nad oes raid iddo fod yn rhywbeth mae pobl yn ei wneud wrth aros am swydd go iawn.[92]

**97.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ffocws y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar dwristiaeth fel Sector Sylfaenol. Bydd yn dychwelyd i graffu ar y cynlluniau galluogi trawslywodraethol maes o law.

**98.** Fel rhan o ymchwiliad dilynol y Pwyllgor i'r Ardoll Brentisiaethau, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod ar hyn o bryd yn ystyried prentisiaethau yn y sector twristiaeth, fel rhan o'r Economi Sylfaenol.[93]

**Casgliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryder sy'n ymwneud â phrinder sgiliau, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit. Mae'n croesawu'r prentisiaethau a ragwelir ym maes twristiaeth ond mae'n ansicr sut y bydd y rhain ar eu pennau eu hunain yn mynd i'r afael â'r prinder sgiliau y cyfeiriwyd ato fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r mater hwn fel rhan o'i agenda graffu ehangach.

**Casgliad 15.** O ystyried yr effaith a ragwelir yn sgil Brexit, nid yw'r Pwyllgor yn glir ar y camau sy'n cael eu cymryd yn y tymor byr i gefnogi ei effeithiau posibl ar y diwydiant twristiaeth.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chynlluniau i gefnogi'r diwydiant drwy ddatblygu'r gweithlu ym maes twristiaeth, yng nghyd-destun Brexit.

---

[92] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 21 Medi 2017paragraff 85

[93] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Ebrill 2018 paragraff 36

# 5. Addysg

**99.** Mae data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn dangos, yng Nghymru yn 2016-17, bod 6,235 o fyfyrwyr o'r UE ac 14,970 o fyfyrwyr o wledydd nad ydynt yn yr UE, o gyfanswm o 129,395 o fyfyrwyr. Mae myfyrwyr tramor yn ffurfio 16 y cant o gyfanswm y boblogaeth o fyfyrwyr yng Nghymru, o gymharu â 24 y cant o'r boblogaeth o fyfyrwyr yn y DU.

**100.** Amcangyfrifodd Prifysgolion Cymru fod myfyrwyr rhyngwladol yn 2015/16 yn cefnogi mwy na 6,850 o swyddi yng Nghymru ac yn cynhyrchu £716 miliwn o allbwn Cymru.[94]

**101.** Dywedodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru fod prifysgolion, yn 2014, yn cynhyrchu £530 miliwn o enillion allforio, sy'n cyfateb i 4 y cant o holl allforion Cymru.[95]

**102.** Dywedodd yr Athro Iwan Davies o Brifysgolion Cymru wrth y Pwyllgor fod myfyrwyr rhyngwladol hefyd yn cynhyrchu twristiaeth academaidd, er enghraifft, pan fydd teuluoedd yn ymweld â myfyrwyr. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod 7 y cant o dwristiaeth yng Nghymru mewn gwirionedd yn gysylltiedig â phrifysgolion.[96]

**103.** Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg £3.5 miliwn ar gyfer Cymru Fyd-eang i "ysgogi partneriaethau rhyngwladol a hybu Cymru fel lle i ddod i astudio ar ôl Brexit".[97] Partneriaeth rhwng Prifysgolion Cymru, Cyngor Prydeinig Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw Cymru Fyd-eang, sy'n canolbwyntio ar ddwy farchnad sy'n flaenoriaeth: UDA a Fietnam.

## Cyn-fyfyrwyr

**104.** Clywodd y Pwyllgor fod gwerth myfyrwyr rhyngwladol i Gymru yn parhau hyd yn oed ar ôl iddynt orffen astudio yma. Yn ôl Prifysgolion Cymru:

> "the international body of honorary fellows amongst the Welsh universities is something that is very significant indeed. And there

[94] http://www.uniswales.ac.uk/wp/media/Unis-Wales-international-student-research.pdf

[95] Ymateb Cymdeithas Ddysgedig Cymru i'r ymgynghoriad

[96] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 236

[97] https://llyw.cymru/newsroom/educationandskills/2018/3-5m-for-promoting-welsh-universities-in-a-post-brexit-world/?lang=cy

> you've got ambassadors within country who associate themselves and universities in a very spectacular way."[98]

**105.** Dywedodd Angharad Thomas, Cyfarwyddwr Datblygu Rhyngwladol, Prifysgol Bangor, wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Prydain wedi cydnabod pŵer y cyn-fyfyrwyr[99] a'i bod yn adeiladu rhwydweithiau o wneuthurwyr penderfyniadau a phobl a allai fod yn ddylanwadwyr yn y dyfodol.

**106.** Dywedodd ColegauCymru wrth y Pwyllgor y gellid gwneud mwy i ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr a chysylltu eu llwyddiant â Chymru. Dywedodd Iestyn Davies wrth y Pwyllgor:

> "I don't think it's beyond the ability of any individual to draw up just the top 100 of Wales's most influential expats, for instance, and start to be very strategic and very direct in that approach. Maybe it happens, I don't know, but no-one seems to be linking with us to say, 'Do you know this person is a leader in their field and they trained at X college or Y university?"[100]

**Casgliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y manteision o ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr a thynnu sylw at lwyddiannau tramor pobl sydd wedi bod yng Nghymru am gyfnod.

## Y Cynnig Addysg Bellach ac Uwch

**107.** Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor eu bod yn teimlo nad oedd gan y brand "astudio yng Nghymru" broffil digon uchel. Dywedodd Cyngor Prydeinig Cymru wrth y Pwyllgor, er bod y brand yn cael rhywfaint o lwyddiant, ei fod yn fenter y mae angen ei hwchraddio. Mae angen iddi gael mwy o fuddsoddiad a hwnnw'n fuddsoddiad mwy craff. Mae angen iddi allu edrych ar farchnadoedd newydd yn ogystal â'r rhai y mae'n gweithio ynddynt ar hyn o bryd.[101]

**108.** Teimlai'r tystion fod gan Gymru fantais ar hyn o bryd oherwydd gellir trosglwyddo cymwysterau gan eu bod yn gysylltiedig â'r fframwaith cymwysterau Ewropeaidd, fframwaith a ddefnyddir gan rai gwledydd y tu allan i'r UE fel model o arfer gorau.[102] Galwodd Prifysgolion Cymru am i'r cysylltiadau a'r safonau hyn

---

[98] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 218
[99] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 216
[100] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 98
[101] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 10
[102] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 12

gael eu cynnal ar ôl i'r DU adael yr UE, a galwodd am ymrwymiad pendant gan Lywodraeth Cymru i gynnal y cysylltiadau hynny a'u cefnogi drwy ei swyddogion, a pharhau i weithio gyda hwy.[103]

**109.** Bu'r Pwyllgor yn ystyried cyrsiau galwedigaethol yn ogystal ag addysg brifysgol. Dywedodd ColegauCymru wrth y Pwyllgor am gryfderau'r gwaith rhyngwladol a wneir mewn colegau nawr. Yn ôl Mr Davies, y Prif Weithredwr:

> "At this point in time, we have members of FE colleges competing in the WorldSkills programme, who are about to travel to Abu Dhabi. We have the next round of that taking place at a UK level in November. Wales has a fantastic story to tell about vocational skills in hospitality and tourism, and, like I say, across the whole vocational area, and we need to sell it."[104]

**110.** Galwodd hefyd ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agosach ag Addysg Bellach i gyrraedd economïau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n bodoli eisoes a dweud wrthynt y gellid diwallu eu hanghenion am sgiliau galwedigaethol penodol yng Nghymru.[105]

**Casgliad 17.** Mae cludadwyedd cymwysterau yn allweddol, ac mae'n rhywbeth y mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi siarad â'r Pwyllgor amdano'n ddiweddar, fel rhan o ymchwiliad ar wahân i'r Ardoll Brentisiaethau. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddoeth parhau i lynu wrth y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd a ddefnyddir yn feincnod ledled Ewrop a thu hwnt.

**Casgliad 18.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi mynegi ei gefnogaeth i weld cyrsiau galwedigaethol yn gyfartal â chyrsiau prifysgol. O gael y cyfle i ddarparu cyrsiau o'r fath drwy gysylltu ag economïau sy'n amlygu, dylid ystyried y manteision economaidd o wneud hynny.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i weithio gyda phrifysgolion a cholegau i sicrhau bod y cymwysterau academaidd a phroffesiynol a ddyfernir yng Nghymru yn parhau'n gludadwy.

## Cysylltiadau

**111.** Roedd Prifysgolion Cymru yn argymell creu a chryfhau'r cysylltiadau rhyngwladol trwy gynnal cynadleddau yng Nghymru. Dywedodd Amanda

[103] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 12
[104] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 13
[105] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 9

Wilkinson, Cyfarwyddwr Prifysgolion Cymru, wrth y Pwyllgor fod y farchnad ar gyfer cynadleddau academaidd fawr iawn.[106]

**112.** Dywedodd yr Athro Davies wrth y Pwyllgor fod Gŵyl Wyddoniaeth Prydain a gynhaliwyd yn Abertawe yn 2016 mor llwyddiannus fel na allent ei chyfyngu i flwyddyn yn unig.[107] Roedd yr effaith ar yr ardal leol yr un mor gadarnhaol â'r effaith ar y brifysgol, sy'n cystadlu ar y llwyfan byd-eang.

**113.** Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor fod colegau a phrifysgolion yn awyddus i weithio'n agosach â Llywodraeth Cymru. Dywedodd ColegauCymru wrth y Pwyllgor:

> "Very often, arts, education, are the calling cards for Wales, and there should be ways of linking them with business to be able to really leverage that and get that higher return on investment."[108]

**114.** Mae gan Lywodraeth Cymru Grŵp Rhyngwladol a'i nod yw cefnogi gwaith prifysgolion a cholegau. Croesawodd y Cyngor Prydeinig y grŵp, gan ddweud:

> "I think we all recognise that there are times when opportunities are missed simply because information isn't shared, plans aren't shared. So, I think this is an opportunity to have a more coherent and joined-up way of working."[109]

**115.** Hefyd, croesawodd y Cyngor Prydeinig ddull newydd y grŵp o weithredu, sydd wedi cynnwys sefydliadau anllywodraethol a sefydliadau o'r sector diwylliannol, gyda bwriad clir i ehangu aelodaeth ar ôl y cyfarfod cychwynnol y llynedd. Gwnaeth tystiolaeth ysgrifenedig y Cyngor Prydeinig i'r Pwyllgor gysylltiad clir rhwng pŵer meddal a gwerth allforion,[110] ac amlygwyd y cysylltiad eto yng nghyd-destun y grŵp Rhyngwladol.

**116.** Dywedodd ColegauCymru wrth y Pwyllgor fod cael rhwydweithiau yn Ewrop hyd yn oed yn bwysicach yng nghyd-destun Brexit. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y darlun yn eithaf cymhleth, ond bod adran addysg bellach a phrentisiaethau

---

106 Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 231
107 Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 232
108 Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 46
109 Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 16
110 Ymateb Cyngor Prydeinig Cymru i'r ymgynghoriad

Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r mathau hynny o rwydweithiau rhanbarth-i-ranbarth, sefydliad-i-sefydliad hefyd.[111]

**117.** Amlygodd y Cyngor Prydeinig yr angen i fyfyrwyr Cymru gael eu cysylltu yn fyd-eang hefyd. Dywedodd fel a ganlyn wrth y Pwyllgor:

> "Wales needs young people with the intercultural and linguistic skills to do business with and positively influence the rest of the world. The continued decline of MFL in our schools will harm Wales' ability to do that in the long term."[112]

**118.** Nododd y Cyngor Prydeinig hefyd fod mwy na 2,500 o unigolion wedi manteisio ar y cyfle i fyw, gweithio neu astudio dramor yn 2016 trwy raglen Erasmus + yr UE. Galwodd y Cyngor Prydeinig ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gefnogi'r rhaglen honno ar ôl i'r DU adael yr UE.[113]

**119.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018 y byddai'n parhau i gefnogi myfyrwyr yr UE sy'n astudio yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20 (y flwyddyn gyntaf ar ôl Brexit).[114]

**Casgliad 19.** Mae'r Pwyllgor wedi clywed trwy gydol yr ymchwiliad bod cynhwysiant ac ymgysylltu yn allweddol er mwyn gwneud yn fawr o'r effaith a'r manteision o werthu Cymru i'r byd. Mae hyn yr un mor wir am gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid yng Nghymru ag y mae i Golegau, Prifysgolion a myfyrwyr gael eu cysylltu yn fyd-eang.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi pobl sy'n dymuno byw, gweithio neu astudio dramor. Os na all Cymru elwa o Erasmus + neu Horizon Europe (y rhaglen olynol i Horizon 2020) mwyach, yna dylid ystyried rhaglenni eraill o fewn yr UE a'r tu allan iddo.

---

[111] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 84

[112] Ymateb Cyngor Prydeinig Cymru i'r ymgynghoriad

[113] Ymateb Cyngor Prydeinig Cymru i'r ymgynghoriad

[114] https://llyw.cymru/newsroom/educationandskills/2018/kirsty-williams-confirms-eu-student-funding-guarantee-for-welsh-universities/?lang=cy

# 6. Tîm Cymru

**120.** Clywodd y Pwyllgor nad yw'r gwaith partneriaeth sydd wrth wraidd strategaeth Ysgrifennydd y Cabinet bob amser yn gweithio fel y dylai. Dywedodd y Cyngor Prydeinig fod adegau ar draws y sectorau pan fo cyfleoedd yn cael eu colli dim ond am nad yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu neu am nad yw cynlluniau'n cael eu rhannu.[115] Cytunodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe, gan ddweud:

> "In terms of Trade, City & County of Swansea ffioedd there is an overall lack of engagement between Llywodraeth Cymru teams, Local Authorities and business partnerships such as Swansea Economic Regeneration Partnership…there is no visibility to local authorities of the work undertaken to sell Wales to the World."[116]

**121.** Galwodd tystion am fwy o gydweithredu, gyda diffyg cysylltedd yn cael ei amlygu gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, a'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn galw am well aliniad rhwng y strategaethau masnach a thwristiaeth.[117]

**122.** Awgrymodd y Cyngor Prydeinig:

> "Wales needs an integrated international strategy – a single vision for shaping our global future that aligns established tourism, trade and inward investment approaches with work being done to take forward the international ambitions of our educational and cultural sectors."[118]

**123.** Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrth y Pwyllgor y dylai Cymru gydweithio mwy er mwyn hyrwyddo ei hun yn y DU, yn ogystal ag yn rhyngwladol. Dywedodd:

> "we are going to be regionally more competitive. Wales is going to be competing against city regions in the rest of the UK that are already projecting themselves internationally much more effectively, arguably, than we are. So, I think there is a need for a strategy that binds together all this and purposes the resources that we have, whether they be resources overseas, such as the international offices, or indeed the

---

[115] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 11 Hydref 2017 paragraff 16

[116] Ymateb Cyngor Dinas a Sir Abertawe i'r ymgynghoriad

[117] Ymatebion i'r ymgynghoriad; Prifysgolion Cymru; Dinas a Sir Abertawe; Y Gymdeithas Ddysgedig; Ffederasiwn Busnesau Bach

[118] Ymateb Cyngor Prydeinig Cymru i'r ymgynghoriad

resource we have for attracting inward investment and, by that, generating supply chains here in Wales."[119]

**124.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod gwaith ar y gweill i integreiddio strategaethau ar draws sectorau a bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio "Ffyniant i Bawb" fel sylfaen, gyda ffocws ar Brexit a beth fydd hynny'n ei olygu i ni yng Nghymru.[120]

**Casgliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod angen i Gymru fod yn gysylltiedig ac yn gydlynus yn ei strategaethau a'i dulliau gweithredu os ydym am godi ein proffil yn fyd-eang.

**Casgliad 21.** Ar draws y tair sector y bu'r ymchwiliad hwn yn canolbwyntio arnynt, cafwyd enghreifftiau da o'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid. Ond fe wnaethom hefyd ganfod y gallai ac y dylai'r Llywodraeth a'i rhanddeiliaid fod yn fwy cysylltiedig. Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd strategaethau Llywodraeth Cymru ac mae ei rhanddeiliaid yn galw am ymgysylltu ymhellach. Er bod y bwriad yno, gellid gwella'r ddarpariaeth.

**Casgliad 22.** Awgryma'r dystiolaeth fod angen strategaeth gyffredinol newydd. Gan fod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi bellach wedi'i gyhoeddi, bydd y Pwyllgor yn monitro ei weithrediad a'i effaith ac yn llunio adroddiad ynghylch hynny.

[119] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 27 Medi 2017 paragraff 237

[120] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 19 Hydref 2017 paragraff 20 - 21

# Atodiad: Tystion

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Yr Athro Annette Pritchard | Cynghorydd Annibynnol |
| Yr Athro Nigel Morgan | Prifysgol Abertawe |
| Adrian Greason-Walker | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Barsby | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Debra Barber | Maes Awyr Caerdydd |
| Cassie Houghton | Maes Awyr Caerdydd |
| Tom Jenkins | Y Sefydliad Asiantaethau Teithio Ewropeaidd |
| Ben Cottam | Ffederasiwn y Busnesau Bach |
| Yr Athro Terry Stevens | Stevens & Associates |
| Sabine Platteuw | Llysgenhadaeth Prydain (Brwsel) |
| Inge Haeldermans | Llysgenhadaeth Prydain (Brwsel) |
| Berwyn Davies | Addysg Uwch Cymru (Brwsel) |
| Huw Roberts | Llywodraeth Cymru (Brwsel) |
| Gilles Roduit | Llysgenhadaeth Swistir (Brwsel) |
| Raphaël Saborit | Llysgenhadaeth Swistir (Brwsel) |
| Alan Bowman | Llysgenhadaeth Canada (Brwsel) |
| Stêphane Lambert | Llysgenhadaeth Canada (Brwsel) |
| Karl van Kessel | Llysgenhadaeth Canada (Brwsel) |
| Evelyn Smith | Enterprise Ireland (Brwsel) |
| David Taylor | Llysgennad Seland Newydd (Brwsel) |
| Rickard Eksten | Scotland Europa (Brwsel) |
| Iestyn Davies | Colegau Cymru |
| Jenny Scott | Y Cyngor Prydeinig yng Nghymru |
| Chris Lewis | Y Cyngor Prydeinig yng Nghymru |
| Yr Athro Iwan Davies | Prifysgolion Cymru |
| Angharad Thomas | Prifysgol Bangor |
| Amanda Wilkinson | Prifysgolion Cymru |
| Ken Skates AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth |